**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 05.04.16**

**4.1 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Margretta Cartwright, John Ellis Williams, Sion Ifor Williams.

**4.2 PRESENNOL**
Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd),Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Edward Williams, Catrin Edwards, Emrys Jones, Sian Edwards, John Ceri Evans, Mike Tregenza, Eryl Jones-Williams.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Mike Tregenza i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol.

**4.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
Datganodd y Cadeirydd ei fod yn siomedig hefo rhai o'r penderfyniadau oedd wedi cael eu gwneud yng nghyfarfod mis diwethaf o'r Cyngor.
Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd ar Cyng. John Ceri Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Modryb yn dilyn damwain erchyll yn ddiweddar.
Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd a theulu y diweddar Miss Mary Williams, Caerelwan yn eu profedigaeth o'i colli.
Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd a gyn Aelod o'r Cyngor sef Mr. Peter Davies a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yn ddiweddar.

**4.4 COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mawrth 1af fel rhai cywir.

**3.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Item 3.12 adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod byth wedi cael ymateb gan yr Adran Priffyrdd ynglyn a beth oedd yn digwydd gyda'r arwyddion 30m.y.a ar waelod Ffordd Gors y Gedol.

**4.6 DATGAN DIDDORDEB**
Datganodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas ddiddordeb yng nghais cynllunio Penybryniau, Dyffryn Ardudwy t ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personnol ganddo ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.
Datganodd y Cyng. Catrin Edwards ddiddordeb yng nghais cynllunio Penybryniau, Dyffryn Ardudwy t ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personnol ganddi ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.
Datganodd y Cyng. Sian Edwards ddiddordeb yng nghais cynllunio Penybryniau, Dyffryn Ardudwy t ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personnol ganddi ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.
Datganodd y Cyng. Edward Griffiths ddiddordeb yng nghais cynllunio Streamside, Dyffryn Ardudwy t ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personnol ganddo ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.

**4.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**
Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Mawrth 1af protest cludiant myfyrwyr, Dolgellau, 3ydd Cyngor llawn, Caernarfon, 7ed trwyddedu, Caernarfon, 8ed 9.30-1.00 masnachfraint y rheilffordd, Dolgellau, 5.30-8.30 torriadau Gwynedd, Blaenau Ffestiniog, 14eg 9.15-2.00 Cyngor Iechyd Cymunedol, Tremadog, 6.15-9.15 Fforwm Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd, Tremadog, 16eg Mynediad De Meirionnydd, Bala, 17eg cyfarfod eglwys, Dyffryn Ardudwy, 21ain 10-1.00 Cydweithio Iechyd Canolbarth Cymru, Dolgellau, 1-2.30 craffu yr iechyd lleol, 2.30-4.30 Fforwm Ardal Meirionnydd, 22ain pwyllgor Harbwr Bermo, 23ain Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy, Harlech, 24ain 11.20-4.30 cyfarfod iechyd, Tywyn, 7.30-9.30 cyfarfod pwyllgor neuadd.
Fe fynychais protest myfyrwyr y coleg yn Nolgellau ynglyn a trafnidiaeth ol 16 ac 'rwyf yn cytuno gyda pryderon y myfyrwyr dros codi pris y cludiant o £60 i £100 y tymor y plentyn. Mae oedran y bysiau, gorlenwi o'r bysiau ar ffaith bod y myfyrwyr ddim, ond yn gallu defnyddio eu pass yn y bore a nos pan mae y bysiau yn llawn.

Mae bron i £5 miliwn o dorriadau gan Gyngor Gwynedd yn cynnwys cau 50 o doiledau, canolfanau croeso a torri yn nol yn cynnal ffyrdd, nid oeddwn yn cytuno gyda hyn ag mi ymatal. ‘Roedd Fforwm y LLywodraethwyr Ysgol yn Nhremadog yn unfrydol yn gofyn i Gabinet Gwynedd i ail edrych ar eu penderfyniad ynglyn ag ol cludiant 16. Ynglyn a masnachfraint y rheilffordd mae mestyn meusydd parcio pentrefi wedi cael eu cynnwys ynghyd a trenau yn stopio ym mhob orsaf ar posibilrwydd o ail agor y lein tren o Afonwen i Bangor. Mae peth cytundeb mewn lle ynglyn ar swyddfa docynnau yn y ganolfan groeso yn Bermo am bod un o’r gweithwyr yn cael ei cyflogi gan Trennau Arriva Cymru. ‘Roedd galwad i gael gwasanaeth 7 diwrnod llawn ar lein y Cambrian. ‘Roedd pryderon yn Fforwm Mynediad De Meirionnydd ynglyn ar torriadau gan Gyngor Gwynedd i’r costau cynnal o’r llwybrau a cyllideb priffyrdd a fuasai hwn yn gallu cael effaith ar ddefnyddwyr y llwybrau a cwynion yn cael eu derbyn. Mae £170,000 wedi cael ei dorri o gyllideb y llwybrau gwledig, £850,000 wedi cael ei dorri o gyllideb y priffyrdd a mae cerddwyr i’r ardal yn ychwanegu lot o arian i’r economy lleol. Mae dal problemau gyda rhai i ffwrdd o’r ffordd yn gwneud niwed i dir amaethyddol pan yn gwiro oddi ar y llwybr cywir. Mae arwyddion yn mynd i gael eu gosod yn categoreiddo y graddiant, serthrwydd a.y.y.b o’r llwybrau, o wyrdd i fynediad i bob melyn a oren i raddol, coch i galed a egniol a du i eithafol. Mae arian wedi cael ei glusnodi a caniatad cynllunio wedi cael ei roi i bont droes newydd dros yr Ysgethin fel rhan o’r llwybr arfordir yn Talybont. Mae mwyafrif o gyllideb Meirionnydd wedi cael ei wario yn Talybont. Fe alla Meirionnydd gael ei dorri i bump ardal yn y dyfodol, ‘roedd cynlluniau i dorri Ardudwy gyda Llanfair yn ymuno a Penrhyn a Dyffryn yn ymuno a Dolgellau a Bermo a Dinas Mawddwy a gefais gefnogaeth i gadw Ardudwy fel un ardal ar cynnig newydd oedd cael pump ardal o dan dalgylch yr ysgolion uwchradd. Mae galwadau am amrywiaeth mewn Cynghorwyr gyda LLywodraeth Cymru yn ceisio dennu cynrychiolwyr o’r grwp anabledd, cefndir ethnig, oed a rhyw ag yn ceisio cael pobl iau yn ymglymu. Mae un o’r swyddogion adfywio yn mynd i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth ond am bod 29 o brojectau ar y gweill yn Meirionnydd mae swyddog arall wedi cael ei apwyntio. Ar y funud nid oes projectau am geisiadau grant yn yr ardal hon, mae yr ardal wedi gwneud yn dda yn y gorffennol yn dennu bron i £750,000 mewn grant. Mae nawr torriad wedi bod yn y cyllideb grantiau, ag felly yn lleol ‘rydym wedi body n ffodus yn cael y grantiau a gawsom. Nid oedd yn bosib cael adroddiad ar y tywyd symudol yn traeth Bennar i bwyllgor Harbwr Bermo am bod y tywyod hwn yn symud o ganlyniad i’r gwynt o’r gogledd neu o’r de orllewin ond mae clawdd enfawr yn cael eu greu ag ‘roedd arbennigwyr yn meddwl bod yr ardal yn newid o hyd. ‘Rwyf yn bryderus iawn bod y Cydweithio Iechyd Canolbarth Cymru sydd yn cyfro yr ardal hon yn dod yn siop siarad iechyd. Yn ddiweddar fe gwrddais ar Gweinidog Iechyd, Cadeirydd a Prif Weithredwr newydd GIG ag ‘roedd recriwtio nyrsys, meddygon a gofalwyr yn cael ei weld fel problem enfawr mewn ardaloedd gwledig. Mae llwybr gyrfa i ofalwyr wedi cael ei fabwysiadu yn ddiweddar. Mae ganddom un gofalwr lleol sydd yn mynd i gysgodi nyrsys cymunedol er mwyn cael profiad ar y llwybr gyrfa a mae y person hwn ar flaen gofalwyr eraill yng Nghymru. Fe fynychais cyfarfod yr eglwys ynglyn ag Eglwys Llanenddwyn a pwyllgor y neuadd bentref a byddaf yn adrodd ar y materion hyn fel maen’t yn dod i fyny. Os oes rhywun angen cysylltu a mi maen’t yn gallu gwneud hyn ar 01341242758 neu 07796833767, neu ar e.joneswilliams@btinternet.com .
Cytunwyd bod angen anfon llythyr o’r Cyngor hwn yn datgan bod y Cyngor ddim yn cefnogi ail agor y rheilffordd o Afonwen i Bangor am byddai y gost o gwmpas £50 miliwn yn gallu cael ei wario yn well ar gwellau y ffyrdd yn ardal Meirionnydd a gofynnwyd i’r sylwadau hyn cael ei anfon i bwyllgor nesa lein y Cambrian ar yr 20ed o Fai.

**4.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Amnewid to yr ystafell haul - Pen y Bryniau, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/59B)**

Cefnogi y cais hwn.

**2 estyniad i’r bloc toiled a cawodydd presennol ac amnewid to fflat yr un adeilad gyda to brig a gosod grisiau dihangfa dan allanol newydd - Canolfan Gwersylla’r Boy’s Brigade, Ffordd yr Orsaf, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/148B)**

Cefnogi y cais hwn.

**Amnewid ystafell wydr - 26 Glan Ysgethin, Talybont (NP5/58/577)**

Cefnogi y cais hwn.

**Codi garej a gweithdy (i ddisodli y gweithdy presennol) - Streamside House, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/581)**
Cefnogi y cais hwn.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Adeiladu pont droed tro yr Afon Ysgethin - tir ger Dalar, Talybont (NP5/58/576) - caniatau

**4.9 MATERION YN CODI**
**A Cynllun Busnes**
Adroddwyd bod £24,576.06 wedi cael ei wario yn y flwyddyn ariannol diwethaf i fyny at 31ain o Fawrth 2016. Rhannodd y Clerc gopiau o gynllun busnes y Cyngor am y flwyddyn 2016/17 i bob Aelod a oedd yn bresennol ac aethpwyd drwy'r cynllun hwn. Cytynwyd i fabwysiadu y cynllun hwn am y flwyddyn i ddod.

**B Camerau CCTV**
Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod ddim i'w adrodd ar y mater uchod ar hyn o bryd.

**C Neuadd Bentref**
Adroddwyd bod cyfarfod o bwyllgor yr uchod wedi cael ei gynnal ar y 24ain o mis diwethaf ac aethpwyd drwy'r cofnodion oedd y Cyngor wedi ei dderbyn o'r cyfarfod a cafwyd wybod bod angen ail osod plac er cof am y diweddar Mr. Meirion Williams yn nol ar wal y neuadd a cytunwyd gofyn i Mr. Gwynfor Edwards wneud y gwaith hwn ag hefyd cytunodd y Cyngor dalu am y gwaith hwn, hefyd cytunwyd bod y Cyngor yn talu am ail ffensio ran o'r maes parcio a cytunodd y Cyng. Edward Williams gael golwg ar beth oedd ei angen a tynnu manyleb allan o'r gwaith a cytunwyd gofyn i Mr. Dei Thomas, Mr. Hefin Edwards a Mr. Meirion Jones am brisiau i wneud y gwaith hwn. Bu trafodaeth ynglyn ar ffaith bod y golau sydd yn y maes parcio ddim yn gweithio yn iawn a cytunodd y Cyng. Edward Williams ag Emrys Jones edrych ar beth oedd angen ei wneud a chysylltu gyda'r Cadeirydd ar Clerc ynglyn ar mater. Er gwybodaeth i'r Cyngor cafwyd wybod bod Mrs Denise Stone wedi ymddiswyddo fel ysgrifennyddes pwyllgor y neuadd ac adroddodd y Cyng. Catrin Edwards ei bod yn gwneud y gwaith dros dro nes fyddai ysgrifennyddes newydd wedi cael ei apwyntio a cytunwyd dylai yr ysgrifennydd newydd gael ei dalu am y gwaith a fydd yn cael ei wneud. Hefyd darllenwyd llythyr oedd Mr. Peter Davies wedi ei anfon i bwyllgor y neuadd yn eu hysbysu ei fod yn ymddiswyddo o fod yn aelod o'r pwyllgor.

**D Archwilio'r lloches bws, mynwentydd a parciau chwarae**
Cytunodd y Cyng. Edward Griffiths wneud yr archwiliad uchod ar ran y Cyngor a cytunodd fynd ar Cyng. Mike Treganza o amgylch gyda ef.

**E Gwefan y Cyngor**
Cafwyd wybod bod y cyfrinair gwreiddiol wedi cael ei dderbyn a bu trafodaeth ar wahanol syniadau o sut i symud ymlaen a cytunodd y Cyng. Mike Treganza edrych ar y mater ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesa.

**F Eglwys Llanenddwyn**
Cafwyd wybod bod cyfarfod cyhoeddus wedi cael ei gynnal ar yr 18ed o'r mis diwethaf yn Neuadd yr Eglwys i drafod y safle uchod. Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod ef ar Cadeirydd wedi mynychu y cyfarfod a bod penderfyniad wedi cael ei wneud y byddai ddim gwasanaethau yn cael eu cynnal yn yr eglwys hon eto. Hefyd cafwyd wybod bod adeiladwyr lleol wedi cynnig adnewydd y to yn ddi dal a bod Huws Gray yn mynd i rhoi y nwyddau i wneud hyn yn ddi dal hefyd.

**G Cyfarfod Un Llais Cymru - Dolgellau 24.2. 16**

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod ef ar Cadeirydd wedi mynychu y cyfarfod uchod ar ran y Cyngor ac adroddwyd fel a ganlyn - mae y siaradwraig wadd oedd Bethan Jones Parry, sy'n cydlynu bid i gael statws Treftadaeth Byd i'r Diwydiant Llechi yng Ngwynedd ar ran Cyngor Gwynedd, i roi cyflwyniad ar yr ymgyrch. Eglurodd Bethan Jones Parry ei bod wedi dod i'r cyfarfod i sôn am yr ymgyrch sydd ar y gweill i fod yn ymgeisio am statws Treftadaeth Byd i'r ardaloedd diwydiant llechi. Mae Bethan yn gyfrifol am gydlynu'r cais. Os a phan fydd y cais yn llwyddiannus, bydd yr ardaloedd hyn yn yr un categori a Wal Fawr Tsieina a'r Taj Mahal. Cyfeiriodd y Swyddog Datblygu at y sefyllfa yn gyffredinol, ac yn arbennig y gyfres o gyfarfodydd sydd wedi eu trefnu ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Cadarnhawyd fod amwysedd ynglŷn â'r toriadau, gyda rhai yn dweud fod y penderfyniad ar y toriadau yma wedi eu gwneud eisoes, ac eraill yn dweud eu bod yn mynd i gael eu penderfynu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth. Eglurodd y Swyddog Datblygu ei bod hefyd wedi cael rhywfaint mwy o wybodaeth am y toriadau i wasanaethau Biniau Halen. Siaradodd gyda swyddog am y sefyllfa ddiweddaraf, a hysbyswyd hi y bydd llythyr yn mynd allan i'r Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyddiau nesaf yn sôn am amcan- bris diwygiedig ar gyfer llenwi'r biniau halen am y gaeaf. Os bydd Cyngor am ail-lenwi mwy na 4 bin halen, bydd y gost yn £80. Os yn llai na 4 bin halen, bydd y gost yn parhau i fod yn 156.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 25ain o Fai 2016 – bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys y Cyfarfod Blynyddol ac yn cael ei gynnal yn ardal Tywyn. Lleoliad i'w gadarnhau

**H Cyfarfodydd gyda Anwen Davies, Cyngor Gwynedd**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod ar ran y Cyngor yn Nolgellau ar y 1af o mis diwethaf ac adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod wedi mynychu y cyfarfod ar ran y Cyngor yn Mlaenau Ffestiniog ar yr 8ed o mis diwethaf ac adroddwyd fel a ganlyn - 'roedd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn datgan bod y penderfyniad pa doiledau allan o'r 50 oedd yn mynd i gau heb gael ei wneud eto ag bod hyn yn dibynnu a oedd y Cynghorau Cymuned lleol yn mynd i'w cymeryd drosodd. Mae hi yr un sefyllfa gyda'r biniau halen er bod newid wedi bod yn y gost ag y posibilrwydd a fyddai yn rhatach i Gyngor Gwynedd i ddosbarthu halen gyda cymunedau yn cyfuno.

**4.10 GOHEBIAETH**

**A Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor eu bod yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri ag yn gofyn a oes gan yr Aelodau unrhyw sylwadau ar y cynllun hwn. Cytunodd y Cadeirydd gael golwg ar y ddogfen hon.

**B Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd**

Wedi cael llythyr ymhellach gan yr uchod ynglyn a biniau halen ag yn datgan pan fydd cyfrifoldeb y biniau hyn yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned bydd y gos o lenwi clwstwr o finiau (isafswm o 3) yn £80 y bin, a llenwi un yn unig yn £156 a bod y Cyngor Cymuned i fod i adnabod sydd i'w llenwi gan gysylltu a Swyddog Cyswllt yr ardal ag hefyd bydd angen cysylltu a'r Swyddog Cyswllt i gytuno ar symud neu ychwanegu biniau halen. Hefyd yn datgan bydd bob bin halen yn cael ei archwilio a'i lenwi cyn tymor y gaeaf sy'n cychwyn 1af Hydref 2016 a bydd cynllun lleoliad a rhif y bin yn cael ei gyflwyno at ein sylw a defnydd cyn y 1af o Hydref a gellir defnyddio rhif bin penodol os bydd gofyn am ail lenwi i'r dyfodol.

**C Cartrefi Cymunedol Gwynedd**

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynglyn ar cae peldroed sydd yn Mhentre Uchaf ag sydd o dan ei perchnogaeth hwy ag yn hysbysu y Cyngor bod y brydles gwreiddiol ar gyfer y cae hwn rhwng CCG ar Cyngor Cymuned a bod hon wedi dod i ben yn 1999 ac erioed wedi cael ei adnewyddu. Maen't yn gofyn a ydi'r Cyngor a diddordeb adnewyddu y brydles hon neu a ydynt yn gwybod am grwp lleol, clwb neu ymddiriedolwyr a all fod a diddordeb i brydlesu'r tir. Cytunwyd anfon yn nol yn datgan bod y Cyngor yn dal eisiau cymeryd y brydles drosodd ar yr un telerau ag o'r blaen ar yr amod bod y ffens o amgylch y cae yn cael ei thrwsio yn gyntaf.

**D Mynwent Llanddwywe**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr gan Mrs Val Smedley, Trysorydd yr Eglwys uchod yn hysbysu y Cyngor bod ochor bedd wedi disgyn i lawr ag yn gorffwys ar fedd arall yn y fynwent uchod a bod y bedd hon nawr yn agored and yn beryg a bod yna dwll mawr o dan y bedd. Hefyd yn gofyn pryd mae darn y wal derfyn yn mynd i gael ei ffensio yn y fynwent uchod and hefyd yn gofyn pwy sydd a goriadau y ddau hysbysfwrdd fel y gallant osod posteri i fyny. Cafwyd wybod gan y Cyng. Edward Griffiths ei fod wedi gosod y polion o amgylch y wal derfyn ag y byddai yn gosod y ffens yfory ag hefyd cytunodd y Cadeirydd, y Cyng. Edward Griffiths ac Emrys Jones gael golwg ar y bedd oedd wedi disgyn. Cytunwyd bod y Clerc yn datgan bod goriadau y ddau hysbysfwrdd gen hi a bod croeso iddynt adael unrhyw bosteri yn garej Smithy.

**4.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £ 10,288.70 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.39 yng nghyfrif y cae chwarae,£7,537.77 yn y cyfrif wrth gefn a £33.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + £174.41 costau = £321.41
Cyllid a Thollad - £110.40 - treth cyflog y Clerc
Mr. J. D. Roberts - £45.00 - archwiliad mewnol
Un Llais Cymru - £256.00 - tal aelodaeth
Cyng. Eryl Jones Williams - £66.60 - costau teithio
E. W. Owen a'i Chwmni - £180.00 - cwblhau ac anfon PAYE y Clerc ar lein
Catrin Sorya Williams - £171.12 - cyfieithu

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

Fe ranodd y Trysorydd gopiau o gyfrifon y Cyngor yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 i bob Aelod a oedd yn bresennol. Fe aethpwyd drwy'r cyfrifon yn ofalus ag fe gymeradwyddwyd y cyfrifon yn unfrydol gan yr Aelodau. Fe arwyddwyd y llyfr cyfrifon gan y Cadeirydd ar Clerc.
Adroddodd y Trysorydd bod Mr. John Roberts yn fodlon gwneud yr archwiliad mewnol am y flwyddyn 2015/16 a cytunodd pawb i hyn. Cytunwyd anfon llythyr at Mr. Roberts yn cadarnhau ei apwyntiad.

**4.12 UNRHYW FATER ARALL**

Cytunodd yr Aelodau i'r Cyng. Eryl Jones Williams ofyn i Mr. Steffan Chambers fynd yn aelod o bwyllgor y neuadd.
Datganwyd pryder bod rhai yn cael eu hanfon adra o'r ysbyty heb neb yna yw derbyn.
Cytunwyd bod y Cyngor yn cefnogi y ffordd osgoi arfaethedig sydd yn mynd yn Llanbedr a bod y Cyng. Eryl Jones Williams yn anfon llythyr at Glerc y Cyngor yn datgan hyn.
Datganwyd pryder bod ddim bin ysbwriel lawr ger y safle hufen ia ar ffordd Glan y Mor, Talybont a cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Mr. Steffan Jones ynglyn a hyn.
Datganwyd pryder bod y ffordd o'r stesion draw am groesffordd Ystumgwern yn dywyll a cytunwyd bod y Clerc yn gofyn i'r Adran Priffyrdd a fyddai yn bosib gosod golau arni.
Cytunwyd bod eisiau swyddog o'r Adran Priffyrdd ddod i lawr i'r pentref er mwyn mynd o amgylch gyda'r Cadeirydd i weld lle mae angen arwyddion stryd newydd yn lle y rhai sydd wedi diriwio.

**ARWYDDWYD..............................................................Cadeirydd**

**DYDDIAD.......................................................................** 431.